



Swydd-ddisgrifiad HLTA Ysgol Pen-y-Cwm

SWYDD: Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (Lefel 4)

YSTOD CYFLOG: Gradd 6 (pro rata)

PWRPAS Y SWYDD

- Cyfrannu at gynllunio, paratoi a chyflwyno gwaith y cytunwyd arno a rhaglenni cymorth i ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion.
- Defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r ysgol, sy'n cyfrannu at amgylchedd dysgu pwrpasol.
- Hyrwyddo dysgu disgyblion mewn ystod o leoliadau dosbarth, gan gynnwys gweithio gyda dosbarthiadau cyfan lle nad yw'r Athro penodedig yn bresennol.
- Hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl, gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cyfartal i ddysgu a datblygu.
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol.

PRIF DDYLETSWYDDAU

Cefnogi Disgyblion

- Cefnogi perthynas waith gyda'r disgyblion, gan weithredu fel model rôl a gosod disgwyliadau uchel.
- Cyflwyno a chefnogi lles disgyblion yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Cwrdd ag anghenion personol disgyblion tra'n annog eu hannibyniaeth.
- Cefnogi lles disgyblion trwy gyflwyno rhaglenni dysgu penodol i gyfrannu at osod targedau unigol ac at adolygiadau.
- Annog disgyblion i ryngweithio a gweithio'n gydweithredol, gan sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan.
- Monitro ac asesu cynnydd disgyblion.
- Rhoi adborth i ddisgyblion mewn perthynas â'u cynnydd a'u cyflawniad.

Cefnogi Athrawon

- Cymryd rhan mewn gwaith arddangos o amgylch yr ysgol yn ôl yr angen.
- Monitro a gwerthuso ymatebion disgyblion i weithgareddau a nodi eu cynnydd tuag at dargedau.
- Hyrwyddo dysgu wrth weithio gydag unigolion a grwpiau bach.



- Cefnogi gwerthuso cynnydd disgyblion gan ddefnyddio ystod o dechnegau asesu.
- Cyfrannu'n effeithiol at gynllunio a pharatoi gwersi/ymyriadau.
- Cyfrannu at gynnal a dadansoddi cofnodion o gynnydd disgyblion.
- Darparu adborth ac adroddiadau yn ôl yr angen ar gyflawniad disgyblion i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

Cefnogi'r Cwricwlwm

- Dethol a pharatoi adnoddau angenrheidiol i arwain gweithgareddau dysgu, gan gymryd i ystyriaeth ddiddordebau ac iaith a chefnidir diwylliannol y disgyblion.
- Cyflwyno gweithgareddau lles i ddisgyblion, gan addasu gweithgareddau yn unol ag ymateb/anghenion disgyblion.
- Ymgymryd â dyletswyddau gweddol debyg sy'n gymesur â lefel y swydd fel sy'n ofynnol gan y pennaeth.

Cefnogi'r Ysgol

- Cydymffurfio a chynorthwyo gyda datblygu polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch eiddo a diogelwch personol, cyfrinachedd a diogelu data, gan adrodd am bryderon i'r person a enwir/priodol.
- Cyflwyno gweithgareddau dysgu 'y tu allan i'r ysgol' o fewn canllawiau a sefydlwyd gan yr ysgol.
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu fel y bo'n briodol.
- Sefydlu perthnasoedd adeiladol a chyfathrebu ag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi cyflawniad a chynnydd disgyblion.
- Defnyddio arbenigedd i gynghori a chefnogi eraill fel y bo'n briodol.
- Cydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch yr ysgol gan gynnwys asesu risg a systemau diogelwch.
- Cadw at bolisi'r ysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.